**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Hydref 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington gan gychwyn am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Dirprwy Faer)

Councillors B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas ac R. J. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**66. <u>DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU</u>**

Cychwynnodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsay, y cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. Ball, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, B. Jones, K. R. Jones ac A. J. Rutherford.

**67. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 18fed Medi 2019 - Rhifau Cofnod 52-65

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs P. M. Jones a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bdo yn gofnod cywir*

Pwyllgor Cynllunio - 18fed Medi 2019 - Rhifau Cofnod 18-20

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

**68. <u>ADRODDIAD Y MAER</u>**

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at Wyl a Gorymdaith Cyhoeddi Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru y bu iddi ei fynychu ym Mhrestatyn a disgrifiodd y diwrnod fel un gwych, diolch i'r tywydd da.

Dywedodd y Cynghorydd King bod y Maer wedi gofyn iddi grybwyll y Croeso Adref gwych gan yr RNLI i'r digwyddiad Bad Achub Dosbarth Shannon yng Ngorsaf Bad Achub y Rhyl, a oedd wedi cael presenoldeb da ac a oedd yn ddiwrnod braf.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr adroddiad.*

## 69. CYFLWYNIAD: 'TOGETHER IN DEMENTIA EVERYDAY' (TIDE)

Ymhellach i gofnod rhif 18 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4ydd Medi 2019, dywedodd Clerc y Dref nad oedd Ms Helen Wilkinson a Ms Vanessa Van Lierde yn anffodus wedi cyrraedd eto ac awgrymodd ddychwelyd at yr eitem pe byddent yn cyrraedd cyn diwedd y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *dychwelyd at y cyflwyniad yn unol â hynny.*

## 70. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNION (ATODLEN A) – MEDI 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atolden o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 832 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,622.00 | Cyfraniad i Barc Dwr y Rhyl Rhandaliad 5 |
| 833 | HSBC | 7.90 | Taliadau Banc 17/07/19 - 16/08/19 |
| 834 | BT | 128.16 | Taliadau Rhyngrwyd |
| 837 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Awst 2019 |
| 838 | CThEM | 2,743.31 | Didyniadau PAYE Awst 2019 |
| 835 | Gunsmoke Communications | 1,280.00 | Ffioedd rheoli digwyddiadau Awst 2019 |
| 836 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,146.32 | Cyflogau Staff Medi 2019 |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 723.00 | AAC ar gyfer swyddfeydd Ffordd Wellington – taliad 6 o 10 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apelio Rhan-amser 19/20 Taliad 6 o 12 |
| 839 | BT | 166.22 | Taliadau rhent |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£50,024.06** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 71. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atolden B i'w cymeradwyo (11eg Medi – 8fed Hydref 2019)*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwad | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Newsquest Media | Hysbysiad Cyhoeddus | 846 | 274.80 |
| Flying Colours | Cerddwyr stiltiau ar gyfer digwyddiad | 847 | 840.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Entertainment Ltd | Calan Gaeaf | | |
| Blachere Illumination UK Limited | LED sparklight 24v gwyn pur gyda chebl gwyrdd | 848 | 852.00 |
| Y Cyngh E Chard | Treuliau teithio Mehefin 2019 – wedi ei adael oddi ar yr hawliad | 849 | 13.50 |
| ECL Plastics Ltd | Bwcedi casglu | 850 | 58.14 |
| Y Cyngh J Chamberlain-Jones | Milltiredd ar gyfer cyfarfod NMWATC 19/9/19 | 851 | 21.60 |
| Waterloo Hire Ltd | Toiledau ar gyfer Sul y Coffa | 857 | 90.00 |
| Soroptimist International Rhyl & District | Pryd Noson Ryngwladol ar gyfer Cymar y Maer | 858 | 18.50 |
| NMWATC | Cinio i 4 cynrychiolydd, cyfarfod 25/10/19 yn Nhreffynnon | 859 | 68.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£2,236.54** |

Tliadau Brys – Cymeradwywyd talebau 848, 858 a 859 fel taliadau argyfwng gan Glec y Dref gan fod angen gwneud y taliadau cyn y cyfarfod nesaf (Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 2il Hydref 2019).

## 72. DATGANIAD ARIAN MAN: 1AF EBRILL – 30AIN MEDI 2019

Cyfeiriodd y Dirprwy Fer at adroddiad Clerc y Dref ( a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo gwariant arian mân yn ystod y cyfnod chwe mis uchod, atodlen o daliadau ynghlwm fel Atodiad A.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau canlynol.*

| Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau | Swm |
|---|---|
| Blodau ar gyfer sefydlu'r Maer 15/5/19 | £50.00 |
| Postio – Datganiad Blynyddol i'r Archwiliwr Mewnol | £2.26 |
| Amlen i bostio datganiad blynyddol i'r BDO | £1.25 |
| Postio Datganiad Blynyddol i'r BDO | £4.00 |
| Papurach | £6.14 |
| Lluniaeth cyfarfod | £15.03 |
| **Cyfanswm** | **£78.68** |

## 73. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU – EBRILL-MEDI 2019

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar fuddsoddiadau'r Cyngor, a oedd wedi gwneud £985.67 yn ystod y cyfnod.

***PENDERFYNYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 74. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR GORFF ALLANOL – GRŴP BUSNES Y RHYL

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ystyried penodi cynrychiolydd newydd i'r grŵp oherwydd bod y Cynghorydd T. Thomas wedi gorfod ymddiswyddo nawr ei fod yn Gadeirydd y grŵp. Nid oedd cynrychiolwyr y Cyngor Tref yn cael cymryd swyddi swyddogol o fewn y sefydliadau.

Cafwyd trafodaethau ar Ardal Gwella Busnes y Rhyl (BID), gyda rhai pryderon / problemau yn cael eu codi gan yr aelodau ar ran busnesau canol y dref.

Gwnaed awgrym i'r Cyngor Tref gynnal cyfarfod ar gyfer holl fusnesau'r Rhyl, lle gellid trafod BID a gofyn i fusnesau ystyried ymuno gyda'r grŵp busnes, neu haeddiannau ffurfio grŵp newydd.

***PENDERFYNWYD***:

*i) gwrthodwyd y gwahoddiad i ail-benodi.*

*ii) Clerc y Dref i adrodd yn ôl ar gynnydd y BID a'r materion a godwyd gan fusnsau lleol, i'w hystyried ymhellach.*

**[Datganodd y Cynghorydd T. Thomas fuddiant rhagfarnus yn yr eitem uchod, oherwydd ei swydd fel Cadeirydd Grŵp Busnes y Rhyl a gadawodd y siambr, gan beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater]**

## 75. CYFLWYNIAD: 'TOGETHER IN DEMENTIA EVERYDAY' (TIDE)

Gan fod Ms Helen Wilkinson a Ms Vanessa Van Lierde wedi cyrraedd, gwahoddodd y Dirprwy Faer iddynt annerch yr aelodau.

I ddechrau, ymddiheurodd Ms Wilkinson eu bod yn hwyr yn cyrraedd ac aeth ymlaen i ddweud:

- bod y prosiect yn cael ei arwain gan y DVSC ac yn derbyn ei gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru tan ddiwedd oes y prosiect ym mis Mawrth 2021, ac yna'r nod yw y byddai'r cynllun yn hunan-gynaliadwy.
- y byddent yn cyflwyno 'cynllun gweithredu dementia' o ymwybyddiaeth i weithredu.
- roeddent eisiau sefydlu Grŵp Gweithredu y Rhyl.
- byddent yn fodlon dychwelyd i'r Cyngor Tref i gyflwyno sesiwn Cyfeillion Dementia, gan wneud y cynghorwyr oll yn Gyfeillion Dementia swyddogol

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau, dywedodd Ms Van Lierde:

- eu bod wedi cefnogi 'Outside Lives', menter gymdeithasol newydd, ffilmiau cyfeillgar i ddementia yn y Theatr Fach yn y Rhyl, Rhwydwaith Stori Bywyd TIDE a theithiau o gwmpas Cadeirlan Llanelwy.
- nad oeddynt yn darparu gwasanaeth i bobl gyda dementia, a bod eu gwaith yn caolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau, ond eu bod yn cyfeirio pobl at wasanaethau lleol.

Diolchodd y Dirprwy Faer i Ms Wilkinson a Ms Van Lierde am eu cyflwyniad.

## 76. EITEM GAN AELOD: CEFNOGI TEULUOEDD GYDAG AWTISTIAETH

Gofynnodd y Cynghorydd B. Blakeley am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref ddod yn fwy ymwybodol o awtistiaeth a'r heriau dyddiol niferus roedd yn ei gyflwyno i'r sawl a oedd ag awtistiaeth.

Awgrymodd y Cynghorydd Blakeley y gallai rhaglen digwyddiadau bach y Cyngor Tref ystyried elfennau sy'n gyfeillgar i awtistiaeth? Awgrymiadau eraill oedd hyrwyddo gwisgo llinynau 'anabledd cudd' i annog mwy o ddealltwriaeth gan aelodau'r cyhoedd?

Dywedodd cynghorydd bod nifer o fentrau cyfeillgar i awtistiaeth yn gweithredu yn y Rhyl, a chyfeiriodd at bolisi 'awr dim cyhoeddiadau rhwng 4-5pm yn Home Bargains, fel polisi gwych nad oedd efallai'n cael ei hyrwyddo ddigon?

***PENDERFYNWYD*** *bod panel bychan o gynghorwyr (Y Cynghorwyr Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine a Miss S. L. Roberts) yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cyngor Tref Prestatyn a oedd eisoes yn cefnogi teuluoedd gydag awtistiaeth gyda golwg ar gynhyrchu cynnig i'r Cyngor Tref ystyried ei gyflwyno.*

## 77. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd y Dirprwy Faer nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

## 78. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol present.

## 79. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 80. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at gofnodion cyfarfod y Pwyllgor CSG (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau:

Pwyllgor CSG - 9ed Medi 2019 - Rhifau Cofnod 8-14

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

## 81. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: ……………………..